Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon

National Assembly for Wales
Health, Social Care and Sport Committee

Dafydd Elis Thomas AC

Y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth

18 Hydref 2019

Annwyl Ddirprwy Weinidog

Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2020-21

Hoffai'r Pwyllgor eich gwahodd yn ffurfiol i ddod i'n cyfarfod ar 5 Rhagfyr i gyflwyno tystiolaeth mewn perthynas â chyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2020-21.

Er mwyn cynorthwyo'r Pwyllgor yn ein paratoadau, byddwn yn ddiolchgar pe byddech yn rhoi gwybodaeth mewn perthynas â'r materion a nodir yn Atodiad 1 i'r llythyr hwn, ynghyd ag unrhyw wybodaeth arall a fydd, yn eich barn chi, yn cynorthwyo'r Pwyllgor â'i waith.

Byddai'n ddefnyddiol pe gallech ddarparu eich papur cyn ein cyfarfod, erbyn **22 Tachwedd.**

Yn gywir

Dai Lloyd AC / AM
Cadeirydd / Chair

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
Seneddlechyd@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/Seneddlechyd
0300 200 6565

National Assembly for Wales
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddHealth@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddHealth
0300 200 6565

Atodiad 1

Cais gan y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon i'r Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth roi gwybodaeth i lywio'r gwaith o graffu ar y gyllideb ddrafft ar gyfer 2020-21.

Sylwadau ar y camau gweithredu a manylion am ddyraniadau'r Llinell Wariant y Gyllideb

- Dadansoddiad o ddyraniadau'r Prif Grŵp Gwariant ar gyfer Cysylltiadau Rhyngwladol a'r Gymraeg 2020-21 sy'n ymwneud â chwaraeon a gweithgarwch corfforol (yn ôl Maes Rhaglenni Gwariant, camau gweithredu a'r Llinell Wariant yn y Gyllideb).
- Dyraniadau dangosol y Prif Grŵp Gwariant ar gyfer Cysylltiadau Rhyngwladol a'r Gymraeg 2021-22 sy'n ymwneud â chwaraeon a gweithgarwch corfforol.
- Sylwadau ar bob un o'r camau gweithredu yn y Prif Grŵp Gwariant ar gyfer Cysylltiadau Rhyngwladol a'r Gymraeg sy'n ymwneud â chwaraeon a gweithgarwch corfforol, gan gynnwys dadansoddiad ac esboniad o'r newidiadau rhwng Cyllideb Ddrafft 2020-21 a'r Gyllideb Atodol Gyntaf (Mehefin 2019).

Yn ychwanegol at y pedair thema arferol, sef gwerth am arian, blaenoriaethu, gwariant ataliol a fforddiadwyedd, hoffai'r Pwyllgor gael gwybodaeth am y canlynol yn benodol (lle nad yw eisoes wedi'i chynnwys yn y sylwadau ar bob cam gweithredu):

- Yr arian a ddyrennir i Chwaraeon Cymru, a'r cynnydd a wnaed wrth fonitro effeithiolrwydd defnydd Chwaraeon Cymru o arian.
- Blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer chwaraeon a gweithgarwch corfforol dros y tair blynedd nesaf, a dyraniadau/gwariant rhagamcanol i gyflawni'r rhain.
- Pa dystiolaeth sydd wedi ysgogi gwaith gosod blaenoriaethau Llywodraeth Cymru a'r gyllideb arfaethedig ar gyfer chwaraeon a gweithgarwch corfforol.

- Tystiolaeth o sut y mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol 2015 a'r pum ffordd o weithio wedi dylanwadu ar ddyraniadau'r gyllideb ar gyfer chwaraeon a gweithgarwch corfforol.
- Mae gan y Pwyllgor ddiddordeb arbennig mewn cael manylion ynghylch sut y bydd y gyllideb yn cefnogi'r canlynol:
    - cynyddu gweithgarwch corfforol ymhlith plant a phobl ifanc yng Nghymru;
    - yr agenda atal ehangach;
    - cydweithio rhwng chwaraeon, iechyd y cyhoedd a phartneriaid eraill.